Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Y tri chategori cynnwys

## Categori Glas

| Gwybodaeth, profiad ac ymrwymiad amser aelodau'r cyhoedd | Enghreifftiau | Gwobr |
|---|---|---|
| • Gwybodaeth trwy brofiad<br>• Nid oes galw am unrhyw brofiad o fod yn rhan o gynnwys y cyhoedd<br>• Ymrwymiad amser cyfyngedig ac nid oes galw em deithio neu fynychu'n bersonol<br>• Nid oes yn rhaid mynd i gostau | • Arolygon lle mae galw am niferoedd mawr<br>• Cyfweliadau byr dros y ffôn<br>• Ymchwilydd yn mynychu digwyddiadau cymunedol i gasglu barn | • Gwerthfawrogiad o'r cyfraniad<br>• Cyfle i gael hyfforddiant a chymorth<br>• Dim cynnig tâl |

## Categori Gwyrdd

| Gwybodaeth, profiad ac ymrwymiad amser aelodau'r cyhoedd | Enghreifftiau | Gwobr |
|---|---|---|
| • Gwybodaeth trwy brofiad<br>• Tystiolaeth o rywfaint o brofiad a dealltwriaeth o fod yn rhan o gynnwys y cyhoedd<br>• Hyfforddiant sylfaenol / cyflwyniad i gynnwys y cyhoedd<br>• Gallu ymrwymo'u hamser<br>• Ymrwymiad i gyfrinachedd a 'Chytundeb Cyfle' o bosibl<br>• Mynychu cyfarfodydd, skype neu delegynhadledd<br>• Gallai gynnwys ymchwilwyr yn trefnu lleoliad ac amser sy'n dderbyniol i'r naill a'r llall | • Cynnwys y cyhoedd mewn datblygu ymchwil, (e.e.: panel cynghori neu gymhorthfa, grŵp datblygu ymchwil)<br>• Gwneud sylwadau ar ddeunyddiau ar gyfer y cyhoedd, ar y ffordd o gynnal astudiaeth (e.e.: Rheoli Treial / Grwpiau Llywio ac ati)<br>• Lledaenu canlyniadau i roi persbectif y defnyddiwr / y cyhoedd<br>• I gynnwys paneli cynnwys y cyhoedd / cymorthfeydd sydd o fewn cyrraedd i ymchwilwyr<br>• Grwpiau seilwaith cynnwys y cyhoedd<br>• Cyfadrannau lleyg | • Cyfle i gael hyfforddiant a chymorth<br>• Cefnogaeth gan gymheiriaid<br>• Ad-dalu treuliau a/neu archebu teithio ac ati<br>• Cynnig o hyd at £25 yr awr neu docyn rhodd/ tocin/ bancio amser ar gyfer cymryd rhan fel aelod o'r cyhoedd (amser i'w bennu) |

## Categori Coch

| Gwybodaeth, profiad ac ymrwymiad amser aelodau'r cyhoedd | Enghreifftiau | Gwobr |
|---|---|---|
| • Tystiolaeth o brofiad a hyfforddiant mewn cynnwys y cyhoedd yn ogystal ag arbenigedd neu brofiad penodol, fel cadeirio neu adolygu dogfennau ar gyfer cais am gyllid ymchwil<br>• Mae galw am ymrwymiad clir o'u hamser sy'n cynnwys amser paratoi, fel darllen dogfennau<br>• Mae galw am ymrwymiad i gyfrinachedd, 'Cytundeb Cyfle' a 'Chod Ymddygiad' neu 'Siarter' o bosibl<br>• Mynychu cyfarfodydd, skype neu delegynhadledd<br>• Yn llai tebygol o gynnwys ymchwilwyr yn trefnu lleoliad ac amser sy'n dderbyniol i'r naill a'r llall | • Llywodraethu cynnwys y cyhoedd, datblygu strategaeth a pholisi<br>• Aelod o fwrdd<br>• Aelod o grŵp rheoli<br>• Aelod o banel adolygu<br>• Aelod o banel cyfweld<br>• Datblygu a thraddodi cyflwyniad<br>• Hwyluso hyfforddiant cynnwys y cyhoedd | • Cyfle i gael hyfforddiant a chymorth<br>• Cefnogaeth gan gymheiriaid<br>• Hyfforddiant sy'n benodol i'r cyfle, os oes angen<br>• Cymorth ysgrifenyddol o bosibl<br>• Ad-dalu treuliau a/neu archebu teithio ac ati<br>• Cynnig o hyd at £25 yr awr am gymryd rhan fel aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys amser paratoi (yr amser i'w bennu) |